# Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

**Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu’r penderfyniad sy’n cael ei asesu**

| | | |
|---|---|---|
| Beth sy’n cael ei asesu? | ☐ | Swyddogaeth |
| | ☒ | Polisi |
| | ☐ | Prosiect |
| | ☐ | Penderfyniad |
| Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad | Polisi Menopos (diwygiedig) | |
| Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu’r penderfyniad hwn? | Mae pum nod i’r polisi hwn:<br>1. Rydym yn cefnogi amgylchedd parchus a chynhwysol lle y gall staff gael sgyrsiau agored a chyfforddus am y menopos.<br>2. Byddwn yn cefnogi staff mewn ffordd sy’n briodol i’w hanghenion. Cydnabod y gall symptomau sy’n gysylltiedig â’r menopos ddigwydd dros nifer o flynyddoedd, y gallant fod yn wahanol o berson i berson ac amrywio o ran difrifoldeb.<br>3. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn darparu hyfforddiant i’r holl staff a Rheolwyr am symptomau posib y menopos a sut gallant gefnogi aelodau eu tîm yn briodol.<br>4. Byddwn yn edrych ar opsiynau i helpu staff gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a chynnig cymorth llesiant drwy ein darpariaethau llesiant.<br>5. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhannu â’ch Rheolwr yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.<br>Yr effaith a fwriedir yw y bydd staff yn fwy gwybodus am y menopos, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael, ac yn hyderus y gallwn ddiwallu eu hanghenion. | |
| Ar bwy mae’r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu’r penderfyniad hwn yn effeithio? | Staff sy’n mynd drwy’r menopos ar hyn o bryd neu sy’n debygol o fynd drwy’r menopos yn y dyfodol<br>Eu rheolwyr a’u cydweithwyr | |
| Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu’r penderfyniad hwn? | Staff (wedi cwblhau’r ymgynghoriad) | |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn? | Marilyn Maidment<br>Ania Rolewska | |
| | Dyddiad: 3/11/2022 | Fersiwn: 1.0 |

**Sgrinio cychwynnol**

| Cwestiwn | Y | N | Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno |
|---|---|---|---|
| A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer? | ☒ | ☐ | Gall cyflyrau sy'n gysylltiedig â'r menopos roi rhai grwpiau cydraddoldeb dan anfantais (gweler isod). Efallai y byddant hefyd yn dod o fewn y gofyniad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i gynnig addasiadau rhesymol. |
| A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb? | ☒ | ☐ | Ydy, i'r graddau y mae'n ymwneud â chefnogi lles staff ac ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb. |
| A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi unrhyw grŵp o bobl dan anfantais? | ☒ | ☐ | Ydy – mae'r amodau sy'n gysylltiedig â'r menopos yn gallu rhoi menywod dan anfantais benodol (yn enwedig yn y grŵp oedran 40-50) a dynion traws neu bobl anneuaidd. |

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

**Asesiad o Effaith**

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| Ystyriaethau trawsbynciol | ☐ | ☐ | ☒ | Gall y menopos gael effaith sylweddol a gwanychol ar rai grwpiau o bobl. Disgwylir i ddarpariaethau'r polisi hwn (codi ymwybyddiaeth, gweithdrefnau i helpu pobl i godi materion am eu profiad o'r menopos, a'r cymorth y gall OGCC ei gynnig) gael effaith gadarnhaol uchel ar y staff sydd wedi profi'r menopos neu a fydd yn ei brofi, yn ogystal â holl staff OGCC.<br><br>Er mwyn gwella'r effaith honno, wrth i'r polisi hwn gael ei ddatblygu, cwblhaodd yr holl staff hyfforddiant am y menopos a darparwyd hyfforddiant ychwanegol i'r tîm rheoli. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Oedran | ☐ | ☐ | ☒ | Gall y menopos gael effaith negyddol ar bobl o wahanol oedrannau. Fodd bynnag, mae'n fwyaf tebygol o effeithio ar bobl yn y grŵp oedran 40-50. Disgwylir i ddarpariaethau'r polisi hwn (gweler uchod) liniaru'n sylweddol unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. Disgwylir iddynt hefyd gael effeithiau cadarnhaol drwy wella llesiant y grŵp gwarchodedig hwn. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anabledd | ☐ | ☐ | ☒ | Gallai mynd drwy'r menopos arwain at ystyried bod gennych chi anabledd os bydd y symptomau'n para'n hirach na 12 mis. Mae'r polisi'n nodi'n glir y gall rheolwyr mewn amgylchiadau o'r fath ystyried gwneud addasiadau rhesymol. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhywedd (rhyw) | ☐ | ☐ | ☒ | Gyda 73% o'n staff yn nodi eu bod yn fenywod, mae'r profiad o'r menopos yn debygol o effeithio ar gyfran fawr o'n staff. Disgwylir i ddarpariaethau'r polisi hwn (gweler uchod) liniaru'n sylweddol unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. Disgwylir iddynt hefyd gael effeithiau cadarnhaol drwy wella llesiant y grŵp gwarchodedig hwn. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☒ | Mae risg nad yw cymorth menopos yn cynnwys pobl drawsryweddol. Mae'r polisi hwn yn nodi'n benodol bod ffocws y polisi'n ymestyn hefyd i ddynion traws. Ar hyn o bryd, nid yw'r grŵp gwarchodedig hwn yn cael ei gynrychioli yn ein gweithlu. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw staff yn y dyfodol sy'n ystyried eu | | ☐ | ☐ | ☐ |

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| | | | | hunain yn ddynion traws, disgwylir i ddarpariaethau'r polisi hwn (gweler uchod) liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol. Disgwylir iddynt hefyd gael effeithiau cadarnhaol drwy wella llesiant y grŵp gwarchodedig hwn. | | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☒ | ☐ | Er ein bod yn cydnabod bod y menopos yn effeithio nid yn unig ar y person sy'n ei brofi ond hefyd ar ei deulu a'i bartneriaid, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau penodol sy'n ymwneud â statws priodasol pobl. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☒ | ☐ | Gan eu bod yn ymwneud ag iechyd atgenhedlol, mae profiad o'r menopos yn amlwg yn berthnasol i bobl sy'n gallu beichiogi. Rydym yn deall y gall effaith seicolegol y menopos amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau a dymuniadau unigol y person o ran beichiogrwydd a mamolaeth.<br><br>Mae'r polisi fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd yn nodi bod symptomau'r menopos yn amrywio'n fawr a'u bod yn gallu bod yn gorfforol neu'n seicolegol. Gall y cyfeiriad hwn, yn ogystal â darpariaethau trawsbynciol cyffredinol y polisi, liniaru effeithiau seicolegol negyddol posib sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth. | Mae'r polisi'n annog deialog agored er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon y gallai gorbryder ynghylch y menopos effeithio arnynt. Ar ben hynny, bydd cyflwyno Mentoriaid Menopos yn rhoi cymorth i'r rheini sy'n poeni am y menopos neu symptomau. | ☐ | ☐ | ☒ |
| Hil | ☐ | ☒ | ☐ | Mae ymchwil yn dangos bod y profiad o'r menopos yn gallu amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig a chenedlaethol, gyda symptomau rhai grwpiau'n fwy difrifol, yn digwydd yn gynt neu'n para am gyfnod hirach. Fodd bynnag, disgwylir i effaith gadarnhaol drawsbynciol y polisi hwn liniaru'r anfantais honno. | Gall pobl brofi'r menopos yn wahanol yn dibynnu ar eu hethnigrwydd, eu cenedligrwydd a'u diwylliant. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth rheolwyr fel rhan o'r polisi hwn wedi atgyfnerthu'r angen i reolwyr fod yn ymwybodol o hynny ac yn effro iddo. | ☐ | ☐ | ☒ |
| Crefydd neu gred | ☐ | ☒ | ☐ | Ni wnaethom nodi unrhyw effeithiau penodol sy'n ymwneud â chrefydd. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod ymchwil yn cysylltu profiad y menopos â ffactorau diwylliannol. | | ☐ | ☐ | ☒ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | ☐ | ☐ | ☒ | Mae risg nad yw cymorth menopos yn cynnwys pobl anneuaidd. Mae'r polisi hwn yn nodi'n benodol bod ffocws y polisi yn ymestyn i'r grŵp hwnnw hefyd. | | ☐ | ☐ | ☐ |

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| Y Gymraeg | ☐ | ☒ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Nodweddion economaidd-gymdeithasol<br><br>• natur wledig<br>• incwm isel/dim incwm<br>• dyletswyddau gofalu | ☐ | ☒ | ☐ | Mae risg y bydd y profiad o'r menopos yn cael ei effeithio'n negyddol gan y rheini sy'n wynebu anfantais economaidd (maethiad gwael, cymorth teuluol cyfyngedig, cyrhaeddiad addysgol is, diweithdra)<br><br>Mae'r strwythurau cyngor a chymorth a amlinellir yn y polisi hwn yn ceisio lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol posibl hyn. | | ☐ | ☐ | ☐ |

**Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:**

Proffil cydraddoldeb staff (2021/22)

- Oedran: 3% dan 25 ac 1% dros 65
- Rhywedd: 73% yn fenywod
- Traws: 0%
- Gwladolion amrywiol: 3%
- Cefndiroedd ethnig amrywiol: 8%
- Cymraeg fel prif iaith: 14%
- Sgiliau Cymraeg rhugl neu eithaf da: 27%-30%
- Anabl: 3%
- Priod 56%
- Cyfeiriadedd rhywiol amrywiol: 4%
- Credoau crefyddol amrywiol: 4%
- Dyletswyddau gofalu: 61% (y rhan fwyaf ar gyfer plentyn neu blant)

Dadansoddiad o'r rhywiau ymysg staff yn ôl rôl

Staff gweinyddol a rheng flaen: 88% yn fenywod

Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Gwasanaethau Cymorth: 75% yn fenywod

Swyddogion a Rheolwyr Gwella: 64%

Uwch Reolwyr: 50%

Dadansoddiad o'r rhywiau ymysg staff yn ôl trefniant gweithio

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 1 aelod o staff ar gontract cyfnod penodol a 72 ar gontractau parhaol. Roedd 23 o aelodau staff yn gweithio yn rhan-amser (19 benyw a 4 wryw).

Adnoddau am y menopos

- https://diverseminds.co.uk/black-women-in-menopause/
- What Experts Want Women of Color to Know About Menopause
- Menopausal Symptoms Among Four Major Ethnic Groups in the U.S
- Social Determinants of Health in Menopause: An Integrative Review
- Culture may influence how women experience menopause
- Nhs.uk/conditions/menopause
- Nice.org.uk/guidance/ng23/ifp/chapter/about-this-information
- Menopausematters.co.uk
- Thebms.org.uk
- Macmillan.org.uk/information-and-support/coping/side-effects-and-symptoms/menopause
- Nhs.uk/conditions/periods
- Endometriosis-uk.org

- Verity-pcos.org.uk
- Womenshealth.gov/menstrual-cycle
- Diabetes.co.uk/menopause-and-diabetes

**Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd**

| |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad â staff gan y Partner Busnes Adnoddau Dynol fel a ganlyn;<br>5 Hydref 22 11 – 12 Wyneb yn wyneb<br>6 Hydref 22 2 – 3 Ar-lein<br>7 Hydref 22 11 – 12 Ar-lein<br>11 Hydref 3 – 4 Ar-lein<br>12 Hydref 10 – 11 Ar-lein<br>13 Hydref 10 – 11 Ar-lein<br>20 Hydref 11 – 12 Ar-lein<br><br>Mae hyfforddiant i'r holl staff wedi cael ei gynnal drwy hyfforddiant ar-lein iHasco drwy gydol mis Hydref a sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth hanner diwrnod drwy'r Rhwydwaith Datblygu ar gyfer y tîm rheoli ar 24 Hydref 2022. Buom hefyd yn ymgysylltu â Chwarae Teg i roi adborth ar sut yr ydym yn cefnogi staff.<br><br>Mae adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol, ac ystyrir bod cael Mentoriaid Menopos yn arbennig o gadarnhaol a bydd y Pasbort Lles yn arbennig o ddefnyddiol i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae staff wedi croesawu'r cyfle i gadw'r ddeialog yn agored ac i greu diwylliant mwy agored lle gellir trafod symptomau gyda'r holl reolwyr llinell. Mae'r polisi wedi cael derbyniad da ac mae'r staff yn teimlo bod hon yn ddeialog y mae angen iddi barhau er mwyn iddynt barhau i gael eu cefnogi. |

**Adroddiad canlyniadau**

| | | |
|---|---|---|
| **Cam Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gwblhau** | ☒ | Sgrinio cychwynnol |
| | ☒ | Asesiad llawn |
| **Crynodeb o'r effeithiau negyddol a nodwyd** | | |
| **Penderfyniad** | ☒ | Bwrw ymlaen – dim newidiadau |
| | ☐ | Bwrw ymlaen – angen gweithredu |
| | ☐ | Peidio â bwrw ymlaen |
| **Cynllun Gweithredu** | n/a | |
| | **Awdurdodwyd gan**<br><br>**Tîm Rheoli........................................** | **Dyddiad**<br><br>**8/11/2022** |